
Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

# Catrin Gerallt




## Crynodeb:

Dyma nofel gyntaf am fywyd helbulus a hwyliog Bethan Morgan. Mae yma flas o fywyd y brifddinas, dipyn o ddychan a hefyd ymdrech i fynd i'r afael â materion troseddol y mae'n well gan rai sefydliadau eu cuddio o dan eu carpedi moethus ...

Cyhoeddwyd *Y Ferch ar y Cei* yng Ngorffennaf gan Wasg Carreg Gwalch.

## Bywgraffiad

Dyma nofel gyntaf Catrin Gerallt, sy'n enedigol o sir Benfro ac wedi'i magu yng Nghaerdydd. Mae'n gyfarwydd iawn â rhychwant eang o fywyd a hiwmor y ddinas. Wedi astudio Ffrangeg yn y brifysgol, cafodd waith fel gohebydd yn BBC Cymru. Treuliodd ugain mlynedd fel Golygydd Cynorthwyol Materion Cyfoes, gan ennill gwobrau BT a BAFTA Cymru am ei rhaglenni ymchwiliadol. Mae hi'n ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gyfrannu straeon i raglenni Radio Cymru a Radio 4.



Yn 2019, cafodd ei haddasiad Saesneg o nofel T Llew Jones, Trysor y Môr-Ladron, enwebiad ar gyfer medal CILIP Carnegie. Yn fwy diweddar, cyfrannodd straeon byrion i'r gyfrol Gymraeg Clymau ac i'r casgliad Painting the Beauty Queens Orange, (Honno) llyfr y mis gan Waterstones yng Nghymru (2021). Mae Catrin yn ymddangos yn gyson ar radio a theledu fel colofnydd a sylwebydd ar y newyddion.

**Fel person ifanc, pwy neu beth wnaeth ddylanwadu arnat?**

Er bod fy rhieni yn gerddorion clasurol, 'roedd fy chwaeth gerddorol yn gwbl wahanol. Yn fy arddegau, fy arwyr oedd y Rolling Stones, y Black Crowes a Crosby, Stills and Nash, oedd yn pery gofid mawr adre!

Ro'n i'n darllen yn frwd, ac wrth fy modd gyda nofelau Edna O'Brien a Margaret Drabble – menywod ifanc oedd yn herio'r drefn ar y pryd. Er nad o'n i'n darllen cymaint o lyfrau Cymraeg yn fy arddegau, fe ges i flas ar nofelau Jane Edwards ac Eigra Lewis Roberts.

Roedd mudiad ffeministaidd y 70au yn ddylanwad cryf hefyd – pobl fel Germaine Greer a Gloria Steinem. Dwi'n cofio dod allan o lyfrgell Caerdydd un prynhawn, a chael fy holi gan griw ffilmio o HTV am gystadleuaeth *Miss World*, oedd yn hynod ddadleuol bryd hynny. Yn bymtheg oed, fe wnes i bregethu o risiau'r llyfrgell am hawliau merched a gwarth yr holl sioe. Dwi'n mawr obeithio bod y tâp wedi'i ddileu!

**Beth yw dy ddylanwadau nawr?**

Dyw statws a phwer ddim yn creu llawer o argraff arna'i ond dwi'n edmygu pobl sy'n gweithio'n dawel yn y cefndir. 'Roedd Eisteddfod Rhondda Cynon Taf yn deimladwy iawn o feddwl am holl waith y gwirfoddolwyr a'r athrawon Cymraeg dros y blynyddoedd. Dwi hefyd yn edmygu menywod sydd wedi cyrraedd y brig ar waetha pob rhwystr. Fe glywais Julia Gillard (cyn brif weinidog Awstralia) yn siarad yn y Senedd rhai blynyddoedd yn ôl – dwi'n edmygu dycnwch a dyfalbarhad menywod sydd wedi llwyddo yn y byd gwleidyddol ar waetha'r dirmyg a'r casineb sy'n eu hwynebu.

Mae pobl iau hefyd yn ysbrydoliaeth. Mae gen i dri o blant rhwng 25 a 40 oed - cymeriadau anturus, annibynnol sy'n herio'r drefn – ac mae hynny'n procio'r meddwl ac yn fy ngorfodi i ail-ystyried fy rhagdybiaethau.

**Dywed ychydig am *Y Ferch ar y Cei*, o ble ddaeth yr ysbrydoliaeth, a beth wyt ti'n gobeithio bydd darllenwyr yn gael o'r stori hon...**

Nofel ddirgelwch yw *Y Ferch ar y Cei* am fywyd helbulus Bethan Morgan, newyddiadurwr sy'n jyglo'i gwaith fel gohebydd teledu tra'n magu tri o blant heriol. Wrth i'w phriodas chwalu, mae'n taflu ei hunan i'w gwaith ac yn ymchwilio i gynllun datblygu ardal y Cei yng Nghaerdydd.

Wedi iddi dyrchu am wybodaeth, daw Bethan i ddeall bod llygredd ac arian mawr wrth wraidd y cynllun ond dyw ei chynhyrchydd ddim am gynhyfru'r dyfroedd. Yn benderfynol o ddarganfod y gwir, mae Bethan yn camu'n ddiarwybod i rwydwaith o wleidyddion llwgr a gweithwyr rhyw ffraeth. Mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth pan gaiff ei hudo gan berchennog tafarn Y Cei, Declan O'Driscoll.

Mae hedyn y syniad wedi ei wreiddio yn fy mhrofiad fel newyddiadurwr –ac fe ges i dipyn o hwyl yn dychmygu antur Bethan Morgan a'i hymdrech i dorri ei chwys ei hun ar waetha ei theulu anysytywallt a'r gwleidyddion seimllyd.



Dwi wedi ceisio sgrifennu nofel afaelgar ac yn gobeithio 'mod i wedi dal rhywfaint o hiwmor a ffraethineb Caerdydd, a chreu chymeriadau lliwgar, hoffus.